

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae chwe phrif thema i'r Cynllun Gweithredu: Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth; Diogelwch; Cartrefi a Chymunedau; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Addysg; a'r Gweithle. Hoffem gael eich barn ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob thema. Efallai yr hoffech roi sylwadau ar un o'r meysydd hyn neu bob un ohonynt.

Defnyddiwch y cwestiynau canlynol fel sail i'ch ymateb. Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau neu wybodaeth ychwanegol os dymunwch.

## Cwestiwn 1

A ydych chi'n meddwl y bydd y Cynllun Gweithredu yn gwella cydraddoldeb i bobl LHDTC+ a beth ddylai'r blaenoriaethau fod yn eich barn chi?

## Cwestiwn 2

A ydych chi'n cytuno â'r nodau cyffredinol? Beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r nodau cyffredinol?

## Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnig? Beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r camau gweithredu?

## Cwestiwn 4

Beth yw'r prif heriau a allai atal y nodau a'r camau rhag cael eu cyflawni?

## Cwestiwn 5

Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu wasanaethau eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi wrth gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

## Cwestiwn 6

A ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriadedd LHDTTC+ â nodweddion gwarchodedig eraill, megis hil, crefydd neu gred, anabledd, oedran, rhywedd, a phriodas a phartneriaeth sifil? Os nad ydych yn teimlo ei fod yn gwneud hynny, sut y gallwn wella hyn?

## Cwestiwn 7

Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Mae'r cynllun gweithredu yn rhoi pwyslais ar groestoriadedd profiadau pobl LHDTTC+, sydd i'w groesawu. Nid yw'r Gymraeg yn nodwedd gwarchodedig wrth gwrs ac ni ellir trafod profiadau siaradwyr Cymraeg yn yr un modd ag y trafodir profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod croestoriadedd hunaniaeth a phrofiadau siaradwyr Cymraeg LHDTTC+ yn y cynllun drwyddi draw. Yn hyn o beth rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yng ngham gweithredu 18 y cynllun gweithredu bod 'angen cymryd camau ymyrryd wedi'u targedu er mwyn cynyddu nifer y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl LHDTTC+ drwy gyfrwng y Gymraeg'. Mae hyn wrth gwrs yn adlewyrchu Argymhellion Panel Arbenigwyr Annibynnol LHDTTC+<sup>1</sup> sy'n nodi'r 'angen i sicrhau bod lleoedd ac adnoddau LHDTTC+ sy'n hygyrch i siaradwyr Cymraeg' a'r 'gwahaniaeth nodedig a nodir rhwng bod yn LHDTTC+ yng nghymunedau gwledig Cymru o gymharu â byw mewn ardaloedd trefol mwy o faint'. Credwn fodd bynnag y byddai'n addas petai rhagor o ystyriaeth mewn manau eraill yn y cynllun gweithredu i'r materion hyn yn ogystal â'r angen i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cam

---

<sup>1</sup> [Argymhellion Panel Arbenigwyr Annibynnol LHDTTC+ \(llyw.cymru\)](#)

gweithredu 53 er enghraifft yn nodi'r bwriad i 'Ystyried opsiynau i dargedu cyllid i ymchwilio i brofiadau pobl LHDTc+ yng Nghymru.' Buasai'n fuddiol ymchwilio i brofiadau siaradwyr Cymraeg LHDTc+ yn ogystal â phobl LHDTc+ mewn mannau gwledig lle ceir canran uwch o siaradwyr Cymraeg mewn sawl man. Buasai hyn yn ei dro yn gallu cyfrannu at gryfhau gweithredu'r cynllun gweithredu hwn o safbwynt sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg LHDTc+ ym mhob rhan o Gymru.

Man arall lle credwn y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i brofiadau siaradwyr Cymraeg yw'r adran sy'n ymwneud â iechyd a llesiant. Rydym yn ymwybodol er enghraifft, fod diffyg gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sawl man yng Nghymru. Mae hyn yn peri pryder inni gan fod y cynllun gweithredu yn nodi bod pobl LHDTc+ yn fwy tebygol na'u cymheiriaid heterorywiol o ddiodeff o iechyd meddwl gwael. Un o elfennau hanfodol gwasanaethau iechyd meddwl yw'r cyfathrebu rhwng unigolion, ac un o elfennau sylfaenol cyfathrebu yw iaith. Os nad yw gwasanaethau iechyd meddwl ar gael yn y Gymraeg i bobl LHDTc+ mae'n bryder mawr gennym nad yw pobl yn derbyn y gefnogaeth sy'n addas iddynt. Yn hyn o beth felly credwn bod angen sicrhau bod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ganolog i gamau gweithredu'r cynllun sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal, a iechyd meddwl yn arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys cam gweithredu 36 'Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â gwaith iechyd y cyhoedd sydd wedi'i dargedu er mwyn mynd i'r afael â materion lle mae pobl LHDTc+ yn wynebu risg anghymesur, gan gynnwys y defnydd o sylweddau, iechyd rhywiol ac iechyd meddwl' a cham gweithredu 40 'sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl yn y dyfodol yn ystyried eu ffocws a'u heffeithiolrwydd ar gyfer pobl LHDTc+, gan gynnwys pobl ifanc'.

## **Cwestiwn 8**

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweler uchod.

## **Cwestiwn 9**

Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos y dylid defnyddio'r acronym LHDTC+. Mae hyn yn sefyll am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu, gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl LHDTC+ yn y Cynllun.

Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis amgen y byddai'n well gennych? Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg am ystyried terminoleg addas yn y ddwy iaith.

Yng Nghynllun Gweithredu cydraddoldeb hiliol drafft Llywodraeth Cymru<sup>2</sup> cyfeirir at grŵp terminoleg Cymraeg a sefydlwyd gan Brifysgol Bangor i sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir i drin a thrafod materion sy'n gysylltiedig â gwrth-hiliaeth yn gyfredol. Wrth ei waith mae'r grŵp yn ymgysylltu â chynrychiolwyr siaradwyr Cymraeg o gymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft awgrymom y byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp hwnnw drafod termau yn nwy iaith Cymru sy'n gysylltiedig â gwrth-hiliaeth. Rydym yn ymwybodol bod ansicrwydd ynghylch y termau sy'n addas i'w defnyddio yn y Gymraeg ym maes LHDTC+ ac mae'r cwestiwn hwn ynddo'i hun yn tanlinellu'r ansicrwydd hwnnw yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hoffem awgrymu felly y dylid sefydlu grŵp terminoleg a fyddai'n cytuno ar dermau sy'n ymwneud â hunaniaeth LHDTC+ yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer Cymru ac sy'n ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r maes ar lun y grŵp sydd wedi'i sefydlu i drafod cydraddoldeb hiliol.

## **Cwestiwn 10**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw, gallwch eu nodi isod:

**Enw: Lowri Williams, Uwch Swyddog Polisi**

**Sefydliad (os yn berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg**

---

<sup>2</sup> [41912 Cymru Wrth-hiliol \(llyw.cymru\)](https://www.llyw.cymru)

**E-bost: [lowri.williams@cyg-wlc.cymru](mailto:lowri.williams@cyg-wlc.cymru)**

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.**

